# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 p9

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 37 - Diwygio ac Atal Rheolau Sefydlog

#### 1. Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 37 yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer diwygio ac atal Rheolau Sefydlog.

#### 2. Y Rheol Sefydlog Newydd

Yn yr atodiad, amlinellir y newidiadau y mae'n bosibl y bydd Aelodau am eu hystyried i'r Rheol Sefydlog hon. Nid yw'r Mesur yn effeithio'n benodol ar y Rheol Sefydlog hon.

Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

Mae cymal 31(7) yn gwneud darpariaeth ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio rheolau sefydlog ac yn nodi y dylai o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau Cynulliad sy'n pleidleisio fod o blaid unrhyw newidiadau.

#### 4. Pwyntiau i'w nodi

Diwygiadau

Mae Rheol Sefydlog 37 yn nodi y caiff Prif Weinidog Cymru, y Trefnydd neu o leiaf chwe Aelod gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog. Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y diwygiadau arfaethedig ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gyda'i argymhellion. Caiff cynigion ar gyfer diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog eu cyflwyno gan Aelod o'r Pwyllgor Busnes ac ni chânt eu mabwysiadu oni fydd o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn cefnogi'r cynnig. Yr arfer yn ddiweddar yw gadael i'r Trefnydd gyflwyno cynigion o'r fath.

Yn yr Alban, caiff Rheolau Sefydlog eu diwygio drwy gynnig gan y Pwyllgor Gweithdrefnau, a ategir fel arfer gan adroddiad y Pwyllgor, ac mae angen cefnogaeth y mwyafrif absoliwt yn y Cyfarfod Llawn.

## 5. Cam i'w gymryd

Cytuno ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn y Rheol Sefydlog hon fel y'u hamlinellir yn yr atodiad.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006